CIPD
Approved centre

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Tystysgrif Lefel 5 CIPD mewn Rheoli Adnoddau Dynol ar gyfer Personél yn y Llu Awyr Brenhinol (RAF)

Cynlluniwyd y cwrs Tystysgrif Lefel 5 CIPD (y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu) mewn Rheoli Adnoddau Dynol yn CAVC i gynnig llwybr hyblyg i Bersonél yn y Lluoedd i ennill y dyfarniad hwn.

Mae cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn golygu bod myfyrwyr yn ennill y dyfarniad Lefel 5 ac aelodaeth gysylltiedig o'r CIPD. Mae'r Dystysgrif yn gymhwyster proffesiynol sy'n cael ei chyhoeddi gan y CIPD ac yn cael ei gydnabod yn eang.

Am ragor o wybodaeth, ewch i *www.cavc.ac.uk*
info@cavc.ac.uk 02920 250 250

Tystysgrif Lefel 5 CIPD mewn Rheoli Adnoddau Dynol ar gyfer Personél yn y Llu Awyr Brenhinol (RAF)

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at rai sydd wedi cael, neu sydd ar fin cael, cyfrifoldebau personél yn eu sefydliad, a hefyd rhai sy'n dymuno cael cyfrifoldebau o'r fath.

- Agwedd hyblyg at ddysgu gydag opsiwn i gwblhau'r cwrs dros 2 flynedd. Gellir cwblhau'r cwrs mewn cyn lleied ag 8 mis.
- Cymuned ddysgu greadigol ac amrywiol o ystod o sectorau.
- Canolbwyntio ar gyflawni gallu proffesiynol yn y meysydd allweddol o reoli a datblygu pobl.
- Byddwch yn cwblhau 12 sesiwn, bydd 8 ohonynt yn sesiynau wyneb yn wyneb a dau yn cael eu darparu trwy ddysgu o bell.

CIPD
Approved centre

Y modiwlau sydd angen eu cwblhau yw:

Datblygu Ymarfer Proffesiynol	2 sesiwn – Opsiwn dysgu o bell
Adnoddau Dynol mewn Cyd-destun Busnes	2 sesiwn (Modiwl Dwbl)
Adnoddau a Chynllunio Talent	2 sesiwn (Modiwl Dwbl)
Defnyddio Gwybodaeth mewn Adnoddau Dynol	2 sesiwn – Opsiwn dysgu o bell
Ymgysylltu â Gweithwyr	2 sesiwn (Modiwl Dwbl)
Cyfraith Cyflogaeth	2 Sesiwn (Modiwl Dwbl)

Yn ogystal â'r sesiynau sylfaenol, gall y myfyrwyr hefyd archebu sesiynau tiwtorial wedi'u teilwra'n arbennig gyda'r tiwtor cwrs i gefnogi pob modiwl, bydd y rhain ar gael trwy Skype, FaceTime neu dros y ffôn. Gellir cyflwyno'r holl aseiniadau yn electronig a bydd gan y myfyrwyr fynediad i'r holl adnoddau dysgu/addysgu trwy ein porth ar-lein.

Costs: £1,950 (mae opsiwn i dalu trwy randaliadau)

ELCAS: Gall personél yn y lluoedd ddefnyddio Credydau Dysgu tuag at unrhyw gwrs AU achrededig Lefel 3 neu uwch yn CAVC.

Bydd rhaid i'r myfyrwyr hefyd gofrestru fel aelod myfyriwr o'r CIPD o fewn 4 wythnos o ddechrau'r cwrs (tua £90 a ffi ymuno) ym mhob blwyddyn academaidd.

Dyddiadau dechrau:
Bydd y cwrs nesaf yn dechrau ym mis Medi 2018.

Am ragor o wybodaeth, ewch i *www.cavc.ac.uk*
info@cavc.ac.uk 02920 250 250

Astudiaeth Achos

Tom

Dechreuodd Tom ei astudiaethau ym Medi gan fynychu'r sesiynau ar gyfer y modiwl Datblygu Ymarfer Proffesiynol yn hytrach na dysgu o bell am ei fod yn awyddus i ddod i adnabod ei grŵp astudio o'r dechrau. Aeth Tom ymlaen i fynychu sesiynau pellach gan gynnwys sesiynau Adnoddau, Cynllunio Talent yn ogystal â Defnyddio Gwybodaeth ym maes Adnoddau Dynol. Roedd Tom yn ymwybodol ei fod yn adleoli yn ystod mis Chwefror ac na fyddai'n gallu mynychu'r sesiynau wyneb yn wyneb am bedwar mis. Cwblhaodd Tom ei aseiniadau i gyd a thra roedd wedi ei adleoli cafodd amser i gwblhau'r Modiwl Defnyddio gwybodaeth ym maes Adnoddau Dynol hefyd, sef modiwl ei brosiect ymchwil. Ar ôl iddo ddychwelyd, cwblhaodd Tom weddill y modiwlau ac fe lwyddodd i dderbyn ei dystysgrif Rheoli Adnoddau Dynol y flwyddyn honno.

Lucy

Nid oedd Lucy yn gallu mynychu dwy sesiwn gyntaf y modiwl Datblygu Ymarfer Proffesiynol oherwydd ymrwymiadau gwaith felly cwblhaodd y modiwl trwy ddysgu o bell gyda chefnogaeth. Mynychodd Lucy'r modiwlau Adnoddau a Chynllunio Talent, Rheoli Perthnasau Cydweithwyr, a Chyfraith Cyflogwyr yn ei blwyddyn gyntaf. Llwyddodd Lucy i ddechrau ar y modiwl Defnyddio Gwybodaeth ym maes Adnoddau Dynol dros yr haf gan fod y deunydd ar gael ar-lein er mwyn ei chefnogi gyda'i hastudiaethau. Siaradodd Lucy gyda'i thiwtor dros Skype er mwyn cael arweiniad pellach gyda'i phrosiect ymchwil. Cwblhaodd Lucy ei modiwl olaf yn yr ail flwyddyn ac fe lwyddodd i dderbyn ei Thystysgrif Rheoli Adnoddau Dynol y flwyddyn honno.

Esra

Roedd Esra yn awyddus i gwblhau ei hastudiaethau cyn gynted â phosib, felly gosododd darged iddi hi ei hun i orffen y cwrs yn ystod y flwyddyn gyntaf. Llwyddodd i ymrwymo ei hamser i gwblhau rhan fwyaf y modiwlau wyneb yn wyneb ac fe gwblhaodd ran o'r modiwl Defnyddio Gwybodaeth ym maes Adnoddau Dynol ar-lein a rhannau eraill o'r modiwl wyneb yn wyneb er mwyn hwyluso'r cwrs ymhellach. Derbyniodd Esra gefnogaeth trwy gyfarfodydd tiwtor un wrth un dros Skype. Ychwanegodd hyn at ei phrofiad dysgu a rhoddodd gefnogaeth sylweddol i Esra wrth iddi geisio cyrraedd ei thargedau.